# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Gorffennaf 9fed 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Arwel Davies, Rhys Jones, Rhys Richards (dros Zoom) a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Cyfethol aelod newydd.
Derbyniwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod yn bosib i'r Cyngor symud ymlaen i gyfethol aelod newydd. Roedd Huw Edwards, Parc, wedi datgan diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor a chytunwyd yn unfrydol i'w gyfethol fel cynghorydd.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Tegid360 – Ein Lle ar y We, gwybodaeth am y dudalen newyddion newydd sydd nawr ar gael ar y we.

b) Cantref.
i) Arddangosfa Y Bala 700 – Yma o Hyd

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-
NP/72/LB142A – Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw gwaith anawdurdodedig. Rafel, Parc.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.

**vi) Materion Ariannol**
a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh).
ii) TWE.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-
i) Maesywaen, Bala – angen torri'r coed yn nôl rhwng Bryn Tirion a Frongain.
ii) Dŵr yn hel ar y ffordd rhwng Pentre Felin a throad Bryniau, Parc.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 10fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….